"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] CHWEFROR, 1876. [RHIF 36.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Aifft a Chanaan	265
Pwysigrwydd y Gwirionedd	268
Gobaith	272
Uffern	274
Hunan-hanes Gweithiwr Ffrengig	276
Deg o Wahaniaethau rhwng Undodiaeth ac "Iawnffyddiaeth"	280
Gohebiaeth	282
Hanesion	282
Marwgofion	283
Barddoniaeth	284

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:
ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, 16, COMMERCIAL-PLACE.

YR

YMOFYNYDD.

Cyfres Newydd.] CHWEFROR, 1876. [Rhif. 36.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR AIFFT A CHANAAN.

JERICHO—JERUSALEM—LLYTHYR XVI.

Parhad o Rifyn Tach., tud. 203.

Mawrth 4ydd. Yr ydym yn cychwyn ar y daith i fyny o Jericho i Jerusalem. Mae'r darllenydd i raddau yn gyfarwydd â'r daith yma, oddiwrth y cyfeiriadau a roddwyd yn y llythyr diweddaf. Ceisied ystyried yn mhellach fod Jericho yn gorwedd yn agos 1300 o droedfeddi (gwall yw'r 13,000 ar tud. 201,) islaw gwyneb Mor y Canoldir, a bod Jerusalem yn agos 2500 uwchlaw yr un mor, ac fe wel fod genym waith mawr i ddringo o'n blaen. Ond wrth bob tebyg fod y dringo yn hawddach gwaith i ni nâ'r disgyn, nad beth fyddai i'r ceffylau. Fel hyn y mae un awdwr yn rhoddi dysgrifiad o'r daith oriwaered:—"Daethom i ardal llawer mwy garw a mynyddig. Yr oedd y gwyrddlesni yn graddol leihau, nes o'r diwedd nid oedd dim dalen o las yn weledig. Etto yr oedd llai o graig noeth nag o'r blaen, ac nid oedd y lliw mor dywyll. Yr oedd gwyneb y graig yn fwy rhydd, ac mewn llawer man wedi ei dreulio yn lludw. Rhedai yr heol ar hyd creigiau serth ac agendorau dychrynllyd, ac weithiau yr oedd darnau o'r graig yn crogi yn fygythiol uwchben. Yr oedd ymddangosiad yr holl ardal yn hynod wyllt ac anial; ymddangosai y mynyddoedd fel wedi eu rhyddhau o'u seiliau, gan ryw chwyldroad dychrynllyd, ac yna wedi eu gadael dan ddylanwad pelydrau poethion yr haul, yr hwn sydd yn llosgi y wlad noeth hon â gwres difaol." Fel hyn mae dysgrifiad Olin: "Yn fuan wedi pasio y dyfrffos (*aqueduct*) adfeiliedig, dechreuasom ddisgyn yn gyflym at y gwastadedd, yr hwn sydd o leiaf yn 1500 neu 2000 o droedfeddi islaw copa'r mynydd. Ymddangosai i mi y rhan fwyaf trafaelus o'r daith. Yr oeddwn wedi dyoddef llawer oddiwrth symmudiadau y ceffyl yn myned i fyny ac i waered y cregiau geirwon, gan

fy mod yn analluog i gael dim cyfnewid fel ar amgylchiadau ereill, trwy ddisgyn yn achlysurol a chredded. Ac yn awr yr oedd pob cam a roddai y creadur blinedig druan, fel yr oedd yn gollwng ei draed yn ystyriol ac yn drymion o graig i graig, gan fy ysgwyd yn ofnadwy, yn peri poen annhraethol. Yr oedd y lludded ac angerddoldeb y gwres wedi achosi llawer iawn o *irritation* ac o *fever*, a bu yn anhawdd genyf gadw fy lle yn y cyfrwy am yr hanner awr ddiweddaf cyn dyfod at dröed y mynydd." Gwnaed ymosodiad ar Olin a'i barti wrth fyned i waered. Dyma ei eiriau: "Darfu i nifer o'r pererinion, yn eu hawydd i wneyd y mwyaf a allent o'r wyl, ddyfod allan o Jerusalem y ddoe, ac wrth gwrs, o flaen yr arweinyddion milwrol. Pan oll gyda'u gilydd, yr oeddynt yn ddigon cryf i amddiffyn eu hunain; ond darfu i un dyn grwydro ychydig oddiwrth y parti yn yr hwyr, a dyfod ar draws Bedawiniaid, y rhai a ymosodasant arno, ac a'i difuddiasant o'i holl ddillad, ac o bossibl, am na chawsant fawr arian a phethau gwerthfawr ereill, a'i curasant yn annhrugarog. Mor darawiadol mae'r hanesyn hwn yn egluro dammeg y Samaritan da, ac yn dangos annghyfnewidioldeb arferion y Dwyrain! 'Rhyw ddyn oedd yn myned i waered o Jerusalem i Jericho, ac a syrthiodd yn mysg lladron, y rhai wedi ei ddiosg ef a'i archolli, a aethant ymaith, gan ei adael yn hanner marw: Luc x. 30—4.'"

Tua hanner y ffordd rhwng Jerusalem a Jericho mae ffynnon a khan neu *inn*. Mae gerllaw i'r heol, ac mewn man lle mae y dyffryn yn ymledaenu ychydig. Yma y mae basin mawr er dyfrhau'r anifeiliaid, ac erys teithwyr yma mae'n debyg er mwyn cael tipyn o *refreshment* ac o orphwys. Mae'r khan wedi ei adeiladu o geryg geirwon, ac y mae golwg adfeiliedig arno. Rhaid fod hwn yn lle hynod ddefnyddiol ar y daith rhwng y ddwy ddinas. Nodir lle gerllaw mewn cilfach glas o'r neilldu fel y man y syrthiodd y dyn yn mysg y lladron. Allasai dim lle yn y byd fod yn fwy addasedig at waith lladron nâ'r cilfachau gerllaw'r heol hon; ac yn ol barn Olin, gall fod y khan hwn yn sefyll lle y safai "y lletty" gynt, neu gall mai hwn yw y lletty y cyfeirir ato yn y ddammeg. Fodd bynag, yr oeddym ni dan amddiffyniad, ac ni welais i ddim argoel fod neb mewn ofn. Ein hamddiffynydd oedd mab sheikh yr ardal, crwt tua 14 oed. Ond yr oedd hwnw mewn awdurdod, ac ni feiddiai neb ymosod arnom. Ymosod arno ef fyddai ymosod ar yr hwn a gynnrychiolai. Wedi i ni fyned rhywbeth dros hanner y ffordd, darfu i ni aros i gael bwyda ychydig. Nid oeddym yn gallu bod heb fwyd hyd y nod mewn ardal fel hon. Sicrheais yr hen geffyl gwyn wrth y ffon a grybwyllais mewn llythyr blaenorol, ac mewn man lle gallasai bori ychydig. Ond nid oeddwn wedi gadael digon o *liberty* iddo, a thrwy ei ymgais am ragor o hono, fe dorodd y ffon, a bu tipyn o helbul wrth geisio ei ddal. Gwelais un peth yma sydd yn werth, fe allai, ei gofnodi. Gwelais berchen yr hen geffyl, hen wr siriol a chymwynasgar, wedi myned o'r neilldu ac yno wrth ei ddefosiwn. Mohamedan ydoedd. Y peth cyntaf a wneir ganddynt, mae'n debyg, pan ddelo'r awr weddi, yw gosod carped ar lawr, ac yna cymmeryd eu cyfeiriad tua Mecca. Wrth gwrs allaswn i glywed dim

a ddywedai, a phe clywswn allaswn i ddeall dim. Ond yr oeddwn yn gweled ei wefusau yn symmud, ac yntau yn myned ar ei liniau ac yn ymgrymu nes bron cusanu y llawr. Pan fyddo y Mohametaniaid wrth eu defosiwn fel yma—nad yn mha le bynag y byddont, pa un ai ar dir neu ar for—maent yn gwbl ymroddedig i'r gwaith, nid ymddangosant eu bod yn gweled nac yn clywed dim a gymmer le oddiamgylch iddynt. Gall llawer o Gristnogion proffesedig ddysgu oddiwrthynt. Dangosant ymroddiad a ffyddlondeb teilwng o efelychiad.

Ond i gychwyn etto—y man nesaf o bwys y daethom ato oedd Bethania. Ystyr y gair Beth yw Tŷ. Cymharer Bwth yn y Gymraeg. Yr esponiad cyffredin ar y gair Beth-ania, yw Tŷ'r Dat. Y Dat yw ffrwyth y palmwydd. Y mae Hepworth Dixon ac Emanuel Deutsch, yn gwrthwynebu yr esponiad, ac yn dywedyd mai'r ystyr yw Tŷ'r Trueni, hyny yw, y *Poor House*. Mae Bethania yn gorwedd ar ochr ddwyreiniol Mynydd yr Olewwydd. Yn y pentref yma digon tebyg, y treuliai ein Harglwydd lawer awr ddedwydd, yn nhŷ Lazarus, Martha a Mair (Matt. xxi. 17; xxvi. 6; Marc xi. 1, 12; Luc. xix. 29). Enw'r pentref yn awr yw El Azariyeh. Lle canolig yr olwg arno ydyw yn bresenol. Dangosir yma dŵr adfeiliedig, yr hwn meddant oedd cartref Lazarus gynt. Dangosir ogof yma hefyd, yn yr hon y dywedir i Lazarus gael ei gladdu. Mae'r mynediad i'r ogof trwy graig galch, ac yn 3½ troedfedd o uchder ac yn ddwy o led; a disgynir ar hyd 27 o risiau i ystafell naw troedfedd scwar. Yn yr ochrau y mae pedwar lle wedi eu tori i dderbyn coffinau. Mae tri stepyn ychwanegol yn arwain i ystafell arall wyth troedfedd scwar wrth naw o uchder. Adeiladwyd Eglwys uwch bedd Lazarus yn y bedwaredd ganrif, ac yn y ddeuddegfed yr oedd yno sefydliad mynachaidd o gryn bwys. Yr oedd yr Eglwys mewn bodolaeth yn 1484. Oddiar hyn y mae gogoniant Bethania wedi diflanu.

I gychwyn etto—wedi ychydig yr ydym yn gweled pentref bychan ar y naill du i ni, yr hwn a ddywedwyd wrthym oedd Bethphage, lle cafwyd yr ebol asyn ar yr hwn y marchogodd yr Iesu i'r ddinas (Matt. xxi. 1; Marc xi. 1; Luc xix. 29). Yn mlaen a ni etto, ar hyd yr heol, yn ol tyb rhai, lle teithiai yr Iesu yn bur fynych. Creda rhai na ddarfu i'r Iesu gysgu erioed yn Jerusalem, ond ei fod yn dychwelyd y nos dros Fynydd yr Olewwydd i gysgu gyda theulu Bethania. Ychydig cyn i ni gyrhaedd pen y mynydd, dechreuodd wlawio yn ddychryllyd, yr hyn a fu yn beth rhwystr i ni fwynhau yr olygfa gyntaf ar Jerusalem. Ond golygfa ogoneddus ydoedd wedi'r cwbl, ac nid oedd neb na tharawyd ef â rhyw synfyfyrdod dwys. Pe buasai yn deg, tebyg iawn y buasem yn aros yn hir i fwynhau yr olygfa; ond gan ei bod yn bwrw mor drwm, teimlem mai gwell oedd brysio rhag blaen. Ac yn y man dyma ni yn dyfod at Eglwys yr Esgyniad, ac yn cael lle i ymgysgodi rhag y gwlaw. Nid oes dim llawer i'w ddywedyd am yr eglwys yma. Nid oes yma ddim harddwch yn yr adeilad; ac oni bai'r offeiriad, fuasem ni ddim yn debyg o fod wedi gweled dim i dynu ein sylw yn neillduol; ac o'r diwedd ymddangosai yn fwy o arwydd o ofergoeledd

na dim arall. Dangosodd i ni ar y llawr lun troed yr Iachawdwr—y llun diweddaf a wnaethpwyd ganddo cyn ei esgyniad i'r nef.

S.

PWYSIGRWYDD Y GWIRIONEDD.

Y MAE pob dyn pwyllog ac ymofyngar, gonest a doeth yn cyfaddef gyda'r parodrwydd mwyaf fod pob gwirionedd yn bwysig. Fel mae y gwirionedd moesol yn wasanaethgar ac yn tueddu i greu heddwch a chydgordiad y gymdeithas ddynol trwy achosi cyd-ddealldwriaeth rhwng dyn a dyn yn ngwahanol amgylchiadau bywyd, felly y mae gwirionedd gwyddonol, trwy roddi gwybodaeth gywir o'r gwyddorau a'r celfyddydau, yn ychwanegu at gyssur a dedwyddwch dynol. Os yw y gwirionedd yma yn bwysig, pa faint mwy o angenrheidrwydd y rhaid fod y gwirionedd dwyfol, y gwirionedd hwnw a ddaeth i lawr o'r nefoedd i oleuo ac i gadw dynion, trwy eu puro a'u santeiddio a'u gwneyd yn debyg i'r hwn yr oedd gwirionedd y peth penaf, mwyaf pwysig a chyssegredig yn ei olwg. Y mae pob peth arall megys yn diflanu o'r golwg pan ei cymherir â'r rhodd oreu hon i'r sawl oedd yn sefyll mewn gwir angen am dani, sef Efengyl y bywyd tragwyddol. Y mae yn goleuo y meddwl y man y mae yn cael ei dylanwad priodol; yn cynnyddu dedwyddwch dyn, ac yn ei ysprydoli â'r gobaith cyssurlawn sydd ganddo trwyddi hi am fywyd o hapusrwydd pur a chynyddol tu draw i'r bedd. Ni all dim feddyliwn i, weini mwy o ddedwyddwch sylweddol i ganlynwyr Iesu Grist, nâ'r gwirioneddau mawrion, pwysig a gogoneddus sydd wedi cael eu hamlygu ynddi. Y mae'r Iesu trwy ei adgyfodiad oddiwrth y meirw, wedi gorchfygu angau, symmud ymaith ddychrynfeydd y bedd, ac wedi agor o flaen llygaid y credadyn ogoniant ardaloedd anfarwoldeb.

Gan i grefydd yr Iesu ddyoddef llawer oddiar law twyll a llygredd, yr hon a godwyd yn ei herbyn yn ei mabandod, neu yn ei chychwyniad, dylem fod yn ofalus iawn o ba ffynon yr ydym yn derbyn, neu ar ba sylfeini yr ydym ni, fel Cristnogion, yn adeiladu ein syniadau crefyddol—ein ffydd a'n gobaith arni. Nid oes yr un ammheuaeth na ddarfu i ddynion wyro oddiwrth symlrwydd yr Efengyl mewn ychydig amser, mewn cymhariaeth, wedi ei chyhoeddiad cyntaf; ond gall ffynon fod yn glir a phur, er fod y ffrydiau sydd wedi dylifo o honi wedi cael eu halogi a'u gwenwyno. Ac y mae yr ymofynydd cysson a goleuedig yn gosod y deall ar waith ac yn myned heibio megys yn ddisylw y llygriadau sydd wedi cripio i mewn o bryd i bryd i'r Eglwys Gristionogol, ac yn penderfynu myned i lygad y ffynon, lle mae dwfr y bywyd yn glir, ac y mae yn yfed yn helaeth o ddyfroedd y bywyd tragwyddol.

I'r Beibl a'r Beibl yn unig, wrth yr hyn y golygwn y rhanau pur ac anllygredig o hono, neu y rhanau hyny sydd yn dwyn argraff y nef arnynt, y dylem fyned er cael allan wirionedd dwyfol, neu y gwirionedd er mwyn yr hwn y daeth Iesu Grist i'r byd i ddwyn ei dystiolaeth iddo. Dylem chwilio y gyfrol santaidd am dano, barnu drosom ein hunain beth sydd iawn, a thra yn profi pob peth, i ddal yr hyn sydd dda. Os oes genym wir barch i wirionedd crefyddol, ac yn teimlo ei allu a'i ddylanwad nefol ar y meddwl, sicr yw na chymmerwn ein hudo i gydymffurfio ag un ffurf, na mabwysiadu a chofleidio unrhyw opiniynau heb ymchwiliad manwl blaenorol. Nid y meddylddrychau a'r opiniynau mwyaf poblogaidd yw y mwyaf cywir bob amser; yn wir, y gwrthwyneb i hyny ydynt fynychaf. Etto i gyd, y mae y mwyafrif mawr o ddynolryw, yn ol ein barn ostyngedig ni, yn mhell o fod yn gwbl argyhoedig o bwys mawr, annghymharol fawr gwirionedd dwyfol, oblegyd hyny yn ddiofal i'w adferu i'w burdeb gwreiddiol, ac i ddwyn ereill i fyw dan ei ddylanwad. Y mae lle i ofni, er cymmaint mae y byd wedi myned rhagddo mewn pob cangen braidd o wybodaethau pwysig a bendithiol, ei fod yn fwy disylw o bwnc crefydd nag unrhyw bwnc arall. Y mae cyflawn le genym i gredu fod miloedd lawer o blant dynion yn proffesu credu hyn ac arall, heb rith o reswm dros hyny; a dyma'r dynion yn y cyffredin sydd yn fwyaf bychanus am y sawl sydd yn siarad yn erbyn, ac yn ymdrechu dangos yr afresymoldeb a'r gwrthyni o'u syniadau neu eu daliadau hwy.

Yn awr, yr ydym ni fel Undodiaid Cristnogol, y rhai ydym yn cael ein gorfodi gan reswm, cydwybod ac ysgrythyr, lawer o honom, o leiaf, i gofleidio a dal ffydd anmhoblogaidd, yn rhwym o gredu, a hyny yn naturiol ddigon, fod ein syniadau ni o'r pwys mwyaf. Nid allwn ni ddim llai, yn ol natur pethau, na meddwl felly, ac ni allwn ni ddim llai na chredu hefyd mai syniadau cyfeiliornus yw y rhai gwrthwynebol iddynt, y rhai ydynt yn cael eu dal yn gyndyn gan y mwyafrif mawr efallai o Gristnogion proffesedig yn y wlad hon. Buasem yn annghysson â ni ein hunain i'r graddau pellaf, a buasem yn haeddu cael ein condemnio ragor nag ydym yn cael ein condemnio yn y dyddiau presenol, pe na chredem hyny.

Y mae yr athrawiaeth o un Duw; nad oes ail yn bod iddo; mai Efe ydyw unig wrthddrych addoliad crefyddol a dwyfol, yn athrawiaeth sydd yn ymddangos i ni o'r pwys mwyaf yn y gyfundraeth Gristnogol. Ni all yr hwn sydd wedi derbyn a chofleidio yr athrawiaeth hon oddiar argyhoeddiad dwys, lai nag edrych arni yn y goleu yma; sef fel un o'r pwys mwyaf. Hi, yn ein golwg ni, yw hanfod crefydd—sylfaen ein cred. Pan yn cael ei chyssylltu â thadoldeb Duw, a chenadwri ein Harglwydd Iesu Grist, y mae yn cynnwys pob peth all ddyrchafu y meddwl a gwresogi y galon. Y fath grefydd yw Undodiaeth. I ni, wrth gwrs, gwirionedd y nefoedd ydyw, yr hwn a gyhoeddwyd gan Iesu, Mab y Goruchaf; o ganlyniad, ni allwn ni, ac ni ddylem ni, y rhai ydym yn ystyried Undodiaeth Gristnogol yn gyfystyr â gwirionedd dwyfol, edrych ar ac ystyried y cyfryw fel o ychydig bwys. Y mae hyn yn ol natur pethau yn anmhossibl. Onid dyled-

swydd pob Undodwr gan hyny yw gwneyd yr oll a allo yn ffordd cyfiawnder ac yn yspryd yr Efengyl, i ledu ei opiniynau yn mhlith ei gyd-ddynion? Onid ydym o angenrheidrwydd, yn credu fod ein Hathraw mawr yn addolwr un Duw, y Tad, fel ninau, ac yn un oedd yn datgan ei ewyllys da, ei ddaioni a'i gariad anfeidrol at bawb mae wedi greu ar ei lun a'i ddelw ei hun? Os felly, yr ydym yn rhwym, fel dysgyblion proffesedig iddo, o ganlyn ei esiampl, ac i wneyd yr holl ddaioni allom yn ein dydd a'n cenedlaeth trwy ddyrchafu rhinwedd, duwioldeb a chrefydd.

Rhaid yw cyfaddef, fodd bynag, fod llawer wedi eu hargyhoeddi o wirionedd Undodiaeth, ac etto, ddim yn feddianol ar ddigon o wrhydri meddwl i addef hyny yn gyhoeddus, ac i amddiffyn y cyfryw yn ngwyneb fod ereill yn gwneyd ymosodiadau annheg arni. Y maent o bosibl yn cael eu hattal rhag gwneyd proffes gyhoeddus o honi, o herwydd eu cyssylltiadau teuluaidd, ac ereill oblegyd y meddyliant na fuasent mor llwyddiannus yn eu masnach, a gwahanol bethau ereill nad ydynt deilwng o'n sylw. Pa fodd y gallant gymmodi y fath ymddygiad â'r fath argyhoeddiad neu argyhoeddiadau, ni chymmerwn arnom y gorchwyl o benderfynu. "I'w Arglwydd ei hun y mae pob dyn yn sefyll neu yn syrthio;" ond carem ni yn fawr weled dynion yn gweithredu bob amser yn ol eu hargyhoeddiadau dwysaf a goreu. Gwir yw fod gan Undodiaid rai rhwystrau ar eu ffordd, mewn ystyr gymdeithasol y dyddiau yma mewn rhai manau, ond nid ydynt ond megys dim mewn cymhariaeth i'r rhwystrau oedd ar ffordd ein cyndeidiau, y rhai a lafuriasant mor egniol yn ngwyneb cael eu gosod allan fel gelynion Duw a dyn, ac i lafur y rhai ydym ni eu holynyddion, lawer o honom, megys wedi myned i mewn iddo. O'r tu arall, nid yw y pethau yma, pa mor nerthol bynag y b'ont, yn ddigon cryf eu dylanwad i atal y meddwl annibynol, yr hwn fyddo wedi cael golwg glir ar y gwirionedd fel y mae yn yr Iesu, rhag gwneyd proffes gyhoeddus o'r hyn mae ef yn gredu yw gwirionedd y nef. Nid gwiw celu y ffaith yma serch hyny, sef fod rhai, yn ol fel y mae yn ymddangos i mi, yn ymddwyn yn unol â'r hen ddywediad hwnw, sef "yn meddwl gyda'r doeth, a gweithredu gyda'r dwl." Ond y cwestiwn mawr ddylem ni, yn gystal â phob dyn arall, gymmeryd dan ein hystyriaeth difrifolaf yw hyn, sef "nid beth ddwg fwyaf o elw bydol i ni, ond *beth yw ein dyledswydd.*" A ydym ni, ynte nad ydym, yn gweithredu yn ol eirchion cydwybod oleuedig a gair Duw fel y deallwn ni ef? I Dduw a chydwybod yr ydym yn atebol am ein hargyhoeddiadau crefyddol, a phob peth ydym yn ei feddwl a'i gyflawni ynte i ddyn neu i ddynion? "Canys," medd yr Iesu, "pwy bynag fyddo cywilydd ganddo fi a'm geiriau, hwnw fydd cywilydd gan Fab dyn, pan ddelo yn ei ogoniant ei hun a'r Tad, a'r angelion santaidd." Buasai yr Iesu a'i apostolion yn ymgadw oddiwrth ac yn cashau y fath ymddygiad. Nid oedd Diwygwyr mawr y byd yn cydymdeimlo dim â'r hyn a ystyrient hwy yn gyfeiliornus. Dysgai yr Iesu athrawiaethau y gwirionedd dwyfol gyda'r eglurdeb mwyaf a chyda'r fath awdurdod, fel yr oedd y bobl yn synu wrth ei ddysgeidiaeth ef. Yr oedd yn ben ar y "sect hono oedd

yn mhob man yn dywedyd yn ei erbyn." Er iddo gael ei erlid gan fawrion a doethion y byd, yn eu tyb eu hunain, safai o blaid y gwirionedd yn ddigryn, ac ni allai neb gael allan unrhyw fai gwirioneddol naill ai yn ei ddysgeidiaeth nac yn ei fuchedd. "Nid oedd dim twyll yn ei enau na dichell yn ei galon."

Pan ddygwyd Petr ac Ioan o flaen y llywodraethwyr Iuddewig, am gyflawnu gweithred o drugaredd ar y cloff yr hwn a eisteddai wrth borth y deml i ymofyn am elusen gan y rhai a elai i mewn iddi, cawsant eu gorchymmyn yn gaeth i beidio siarad neu ddysgu dim mwyach yn enw yr Iesu. Ond atolwg, beth oedd eu hateb i elynion eu Harglwydd? Wel, gan eu bod wedi cael eu hysprydoli gan gariad at y gwirionedd, atebasant a dywedasant, "Ai cyfiawn yw gerbron Duw, wrando arnoch chwi yn hytrach nag ar Dduw, bernwch chwi." Y mae ein dyledswydd ni gan hyny yn amlwg iawn o'n blaen, os cymmerwn yr Iesu a'i apostolion yn esiamplau. Ni ddarfu iddo Ef na hwythau gelu y gwirionedd ond dygasant eu tystiolaeth diamwys iddo yn ngwyneb cael eu gosod allan fel ynfydion a'u trin fel y cyfryw. Un o brif nodweddion cenadwri ein Hiachawdwr oedd dwyn o hono ei dystiolaeth i'r gwirionedd, yr hyn a wnaeth trwy ei amlygu yn ei fywyd, a'i gadarnhau â'i farwolaeth a'i adgyfodiad oddiwrth y meirw. Ni ymddangosai Ef un amser mewn agwedd fenthycol; ni ymddangosai i ereill yr hyn nad oedd mewn gwirionedd. Yr oedd dweyd un peth a gwneyd peth arall yn beth oedd ef yn ei gashau. Ni allasai yr hwn oedd y "ffordd a'r gwirionedd a'r bywyd," lai na chondemnio twyll a rhagrith yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid yn ei oes ei hun, a phob oes arall. Hefyd gofynwn beth sydd yn yr ymchwiliad manwl a gonest am y gwirionedd dwyfol, y dylai dyn gywilyddio ei arddel a'i broffesu yn gyhoeddus? Ai peth i gael ei gadw yn y tywyllwch yw gwirionedd? A ydyw dyn yn ddiragfarn yn ei ymofyniadau, ac a ydyw ei argyhoeddiadau yn rhai gonest? A ydyw yn chwilio am y gwirionedd fel y mae yn yr Iesu, heb gymmeryd ei rwydo gan ragfarnau ereill ac ymadroddion teg a chwyddedig twyllwyr? A ydyw wedi arfer y moddion goreu i'w gael allan, ac wedi parotoi ei feddwl i'w dderbyn? Os felly, nid oes achos iddo, bid sicr, ofni gwneyd proffes gyhoeddus o'i opiniynau, y rhai, pe yn gyfeiliornus, ni fuasent yn un gwaradwydd iddo ef. Ni fuasent ychwaith yn iselu ei gymmeriad yn ngolwg chwiliwr y galon a phrofwr yr aren; mewn gair, byddai yn anrhydedd yn hytrach nâ gwaradwydd, oblegyd ffrwyth argyhoeddiad dwys ydynt iddo ef, ac y mae wedi eu meithrin fel gwirioneddau gyda chalon onest a diragrith. Y mae yn bosibl ddigon na all dynion o feddyliau culion, crebachlyd a sectol ddeall hynyma, am y rheswm y credant mai ganddynt *hwy* mae holl wirionedd Duw, a'i bod yn anmhosibl y gall fod gan neb ond ganddynt *hwy*.

Os oes un dyn sydd yn galw ei hunan yn Undodwr, yn mynychu yr addoliad Trindodaidd, credwn ei fod yn gwneuthur felly o ddiffyg dwys ystyriaeth ac uniondeb gwir grefyddol, o ddiffyg argyhoeddiad dwys a phersonol, pwy sydd deilwng o addoliad dwyfol. I ni, mae yn arddangos yr annghysondeb mwyaf; oblegyd os oes un gwirionedd

o fwy o bwys nâ'r llall, yr hyn sydd yn dal cyssylltiad â gwrthddrych addoliad gallwn feddwl yw hwnw. Angenrhaid mewn gair i'r Undodwr cydwybodol edrych ar addoliad y Drindod fel peth anysgrythyrol; fel peth sydd yn cael ei wahardd gan yr Iesu, ein pen a'n blaenor a'i apostolion, ac o ganlyniad yn beth na ddylid wneyd; ond yn hytrach dylai fynychu y manau hyny lle y mae y gwir addolwyr yn addoli y Tad mewn yspryd a gwirionedd, yn ol cyfarwyddyd yr Athraw. Ni ddylai ef, ac ni all un Undodwr goleuedig a chydwybodol, gynnyg yr addoliad dwyfol hwnw mae ef yn gredu sydd ddyledus yn unig i'r Creawdwr i'r creadur. "Yr Arglwydd dy Dduw a addoli, ac ef yn unig a wasanaethi," ydynt iddo ef yn eiriau pwysig a llawn ystyr. Nid ydym ni am awgrymu fod y Trindodiaid eu hunain yn credu eu bod yn eilun-addolwyr, oblegyd credant hwy fod pob un o'r Tri Pherson yn y Drindod, mewn rhyw ystyr, yn Dduw, ac oblegyd hyny yn teilyngu cael eu haddoli âg addoliad dwyfol. Ond o'r tu arall, ymddengys i ni ei fod yn llwyr anmhosibl y gall un dyn sydd wedi cael ei argyhoeddi yn llwyr o Gristionogaeth fel y mae'r Undodwr Cristionogol yn ei deall, a'r hwn sydd yn teimlo ei dylanwad cysurlawn a nefol, uno heb euogrwydd cydwybod; ïe, heb fod cydwybod yn ei ddirgel gondemnio, yn y gwasanaeth mwyaf cyssegredig gydâ'i gyd-gristionogion, y rhai ydynt yn addoli y Drindod. Ymddengys i ni fod addoliad Undodaidd yn neillduol addasedig i buro ac eangu y galluoedd dealltwriaethol, i ysprydoli y meddwl â syniadau dyrchafedig a bywiol am yr Hollalluog Dad, yr hwn sydd yn y nefoedd, ac i weini i'r enaid dynol y cysuron puraf a mwyaf nefol. Dylai gan hyny y sawl sydd yn argyhoeddedig o'r gwirionedd uchod, ddwyn eu tystiolaeth ddiamwys iddo heb ofalu dim am y canlyniadau bydol o wneuthur felly, ac i uno gydâ'r credinwyr cyntefig i addoli, yn mhrydferthwch santeiddrwydd, Awdwr mawr y greadigaeth, Duw a'n Tad ni oll, i'r hwn yn unig y byddo pob addoliad a gogoniant yn oes oesoedd.

N. W. P.

GOBAITH.

Gorchwyl uniongyrchol gobaith yw rhoddi i ni hyder yn y dyfodol. Amgauir ni oddiamgylch gan yr hyn nas gwyddom, ac o bosibl gan yr hyn nas gallwn ei wybod. Ychydig wyddom am y sydd, llai am a fu, a dim am a fydd. Nis gwyddom beth a ddwg y foment nesaf allan. Yr ydym yn ddarostyngedig i alluoedd aruthrol yn pasio yn barhaus trwom ac o'n hamgylch, yn treiddio ein cyfansoddiadau corfforol, yn cadw mewn cyffro parhaus bob dryllyn o sylwedd sydd yn gwneuthur i fyny ein cyrff—galluoedd nas gallwn eu llywodraethu, ac i'r rhai yr

ydym mewn gwirionedd yn *passive slaves*. O'r holl gwestiynau pwysig, o ba le y daethom, paham yr ydym yma, beth yw y byd yn yr hwn ydym yn byw, pa berthynas sydd rhyngddo â'r bydysawd yn yr hwn nid yw ond megys gronyn o dywod yn anialwch Affrica, i ba ddyben yr ydym yn bodoli, i ba le yr awn—y rhai hyn, a dirgeledigaethau cyffelyb, ag ydynt yn cau oddiamgylch i ni, yn fuan a'n suddant i lonyddwch anobaith, oni bae fod yn blanedig yn y meddwl un teimlad sydd yn goreuro, os nad yw yn treiddio, y tywyllwch a'n hamgylchyna, yn troi'r caddug yn ddysgleirdeb ac yn rhoddi hyd y nod i'r cymmylau a grogant uwch y llwybr i'r hwn yr ydym yn teithio, liwiau a'u troant yn wir byrth y nef. Dim gostwng calon mwy. Dim tywyllwch, dim ofn mwy. Mae'r dyfodol yn eiddo i ni. Yn mlaen. I fyny. *Excelsior*. Llais gobaith yw, yn sisial hyder a gwroldeb. Tywyniad gobaith yw, yn goleuo'r olygfa, ac yn troi'r caddug yn ddysgleirdeb. Yn y blaen. Ond i b'le? I ba hafan? Ah, nis gwyddom. Ond ni waeth. Y mae gobaith yn cin gyru rhag y blaen. Mae gobaith yn goleuo'r presenol, ac yn goreuro'r dyfodol. "Dros brydnawn yr erys wylofain, ond erbyn y bore y bydd gorfoledd." Beth waeth genym ni am y tywyllwch yn awr, cawn fyw yn y goleuni rhag llaw. Tafla gobaith belydrau ei lusern ar yfory, a chyd ag adlewyrchiad y pelydrau hyny, goleua heddyw i fyny.

Y mae gobaith yn cael ei gyssylltu â dychymyg mor fynych, fel y maent yn cael eu camgymmeryd lawer pryd y naill yn lle y llall. Ond nid yw gobaith ond yn unig y cynhyrfydd sydd yn peri i ni edrych i'r dyfodol a'r pell, am beth bynag nas gallwn gael yn y presenol a'r agos. Nid yw gobaith yn dwyn ger ein bron wrthddrychau neilldnol yn perthyn i'r dyfodol; gwaith dychymyg yw hyny. Mae'r ffansi yn adeiladu castellau yn yr awyr, a phan y syrthiant y mae gobaith yn ein cymhell i adeiladu rhai ereill yn eu lle. Mae gobaith yn gynneddf sydd yn ychwanegu yn fawr at ddedwyddwch dyn. Hebddi byddai bywyd yn annyoddefol. A gallwn weled mor annyoddefol yw'r cyfryw fywyd trwy sylwi ar enghreifftiau lle mae gobaith yn ddiffygiol neu megys wedi clafychu. Lle byddo'r ymhenydd wedi ei ddwyn yn isel trwy afiechyd hir a thrwm, megys ar ol twymyn, onid yw'r darllenydd erioed wedi bod yn teimlo rhyw deimlad dychrynllyd o ostyngiad yn ystod yr hwn yr oedd yr oll o'r presenol, heb un achos amlwg, yn ymddangos yn dywyll, a'r dyfodol heb un drem o oleuni?—pan nad oes i ni yr un yfory? pan y tywalltwn ddagrau ar unrhyw achos neu heb un achos? Dyma'r amlygiad fod cynneddf gobaith am amser megys dan ymollyngiad. Dyma'r hyn a fyddem yn wastad pe na buasai'r teimlad o obaith wedi ei roddi i ni. Mae iselder ysbryd, yr hwn sydd barlysiad ar y gallu i obeithio, yn ffurf nid anfynych o goll-synwyr, ac yn achos cyffredin i hunan-laddiad. Anobaith, mewn iaith gyffredin, yw'r gwrthwyneb i obaith. Mewn gair nid yw ond marwolaeth gobaith.

E. W. C.

UFFERN.

(Parhad o Rifyn Tachwedd, tud. 215.)

Dr. Kitto, yn ei Esponiad ar y Beibl, a ddywed,—"Meddwl llythyrenol *hades* yw yr hyn sydd mewn tywyllwch. Mae Job wrth ddesgrifio sefyllfa dyn yn y bedd, yn ei alw yn 'wlad tywyllwch fel tywyllwch ei hunan.'" Cyfieithir y gair *hades* yn *uffern*, a hyny yn anmhriodol, unarddeg o weithiau, sef yn Mat. xi. 23; xvi. 18; Luc x. 15; xvi. 23; 1 Cor. xv. 55, &c. Gehenna hefyd sydd wedi ei gam-gyfieithu ddeuddeg o weithiau, sef yn Mat. v. 22; x. 28; xviii. 9; Luc xii. 5; Iago iii. 6; Judas 7. Mae cyfeiriadau aml yn cael eu gwneyd yn y Testament Newydd gan ein Hiachawdwr at ddyffryn Hinnom, yn agos i Jerusalem. Y ffaith fawr a ddangosir gan reswm, natur, a datguddiad yw, mai drws y bedd yw angau, ac nid porth i'r nefoedd, i'r duwiol fel yr annuwiol; ac nis gall na gwobr na chosp mewn perthynas i'r meirw gymmeryd lle cyn eu hail-gyfodi hwy o feirw yn gyntaf. Beth, gofynwn, yw natur cospedigaeth yr annuwiol? Oblegyd y mae yr annuwiol i gael eu gwobr. A beth yw natur y gosp? Ai poenedigaeth annherfynol, neu ddystryw a cholledigaeth dragywyddol? At y gair ac at y dystiolaeth. "Oni ddywedant yn ol y gair, nid oes goleuni ynddynt."

Gofynwn, nid i Plato na Socrates, nid i'r Pab na'i Gardinaliaid, nac esgob na phregethwr, ond i ysgrifenwyr anffaeledig Gair Duw—i Moses a'r proffwydi, ac i Iesu Grist a'i apostolion. Dywedwch wrthym, O! ysgrifenwyr anffaeledig ac ysprydoledig, A fydd i'r annuwiolion gael eu cospi â *phoenedigaeth annherfynol?* Gwrandawer ar eu hatebion, y naill ar ol y llall. Dyma nhw:—"Efe a *gollir yn dragywydd fel ei dom.*" "Efe a eheda ymaith megys breuddwyd, *ac ni cheir ef.*" "Mai hyd dydd *dinystr* yr arbedir y drygionus." "Canys wele, *dyfethir* y rhai a bellhant oddiwrthyt; *toraist ymaith* bob un a buteinio oddiwrthyt." "*Darfydded* y pechaduriaid o'r tir, *na fydded* yr annuwiol mwy." "Yr Arglwydd sydd yn cadw pawb a'i carant ef, ond yr holl rai annuwiol a *ddyfetha* efe." "Canys *torir ymaith* y drwg ddynion, ond y rhai a ddysgwyliant wrth yr Arglwydd, hwynthwy a etifeddant y ddaear." "Etto, ychydigyn, ac *ni welir* yr annuwiol, a thi a edrychi am ei le ef, ac *ni bydd dim o hono.*" "Eithr *collir* yr annuwiolion, a gelynion yr Arglwydd *fel brasder a ddiflanant, yn fwg y diflanant hwy.*" "Canys yr Arglwydd a gâr farn, ac ni edy ei saint, cedwir hwynt yn dragywydd; ond hâd yr annuwiol *a dorir ymaith.*" "Canys wele y dydd yn dyfod yn llosgi megys ffwrn, a'r holl feilchion a holl wneuthurwyr anwiredd *a fyddant sofl*, a'r dydd sydd yn dyfod a'u llysg hwynt, medd Arglwydd y lluoedd, fel nas gadewir iddynt *na gwreiddyn na changen.*" Dywed yr apostol Paul yn 2 Cor. ii. 15, 16, "Canys perarogl Crist ydym ni i Dduw yn y rhai cadwedig, ac yn y *rhai colledig*, i'r naill yr ydym yn arogl marwolaeth i *farwolaeth*, ac yn y llall yn arogl bywyd i fywyd." "Y rhai a ddyoddefant yn gospedigaeth *ddinystr tragywyddol* oddi ger bron yr Arglwydd, ac oddi wrth ogoniant ei gadernid, pan ddel efe i'w ogoneddu yn ei saint, ac i fod yn rhyfeddol yn y rhai oll sy'n credu," (2 Thes. i. 9, 10). "Eithr y rhai hyn," ebe Pedr (2 Pedr ii. 12), "megys anifeiliaid anrhesymol, y rhai a wneid i'w dal ac i'w *dyfetha*, a gablant y pethau ni wyddant oddi wrthynt, ac a *ddyfethir* yn eu llygredigaeth eu hunain." "Ond i'r ofnog, a'r digred, a'r ffiaidd, a'r llofruddion, a'r puteinwyr, a'r swyngyfareddwyr, a'r eilun-addolwyr, a'r holl gelwyddwyr, y bydd eu rhan yn y llyn sydd yn llosgi â than a brwmstan, *yr hwn yw yr ail farwolaeth*," (Dat. xxi. 8). Gwelwn oddiwrth yr adnodau a ddyfynasom mai *difodi, dinystrio, colli, tori ymaith*, a *diflanu*, yw diwedd eu cospedigaeth, ac nad oes yn yr adnodau y sail leiaf o *boenedigaeth annherfynol.*

"PROFWCH BOB PETH: DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL.

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD—CYFROL III.

1875–6.

ABERDAR:
ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, 16, COMMERCIAL PLACE.
1876.

CYNNWYSIAD.

Adolygiad y Wasg - - - - - - 232
Addoliad Cyhoeddus - - - - - 246
Addysg yn Elfen Hanfodol yn Nyrchafiad y Gweithiwr - - - - - - - - 81
A ellwch chwi fforddio? - - - - 19
Aifft a Chanaan - 54, 108, 152, 199, 265
America (Hanes Symmudiadau) - - 86
Anerchiad i Ddeiliaid yr Ysgol Sabbothol - - - - - - - - - - - 79
Anerchiad ar Addysg - - - - - - 193

Barddoniaeth 24, 48, 71, 95, 119, 143, 168, 192, 239, 264, 284
Bendithion Beunyddiol - - - - - 196
Breuddwyd Plentyn am y Seren (Dickens) - - - - - - - - - - 162
Bywyd Dynol - - - - - - - - 43

Cerddoriaeth - - - - - - - 101, 129
Cofgolofn Gwilym IV. - - - - - 141
Congl yr Holiedydd 22, 46, 69, 118, 189, 238
Crist a Christ'nogaeth - - - - - 145
Crist'nogaeth Undodaidd - - - - 179
Cwmbychan, Llith oddiyno - - - 260
Cwrdd Blynyddol (Cwmbach) - - 134
Cyfarfodydd Cenadol y Parch. J. Davies, Alltyplaca - - - - - - - 223, 254
Cyfarfodydd Chwarterol - 61, 210, 282
Cynghor Tad i'w Fab - - - - - 133
Cythreuliaid - - - - - - - 37, 78

Dafis, Castellhywel - - - - - - - 91
Dall (Ymddiddan) - - - - - - 9, 27
Diarebion a'r Tywydd - - - - 31, 88
Duwioldeb Sylweddol - - - - - - 1
Dyrchafiad y Gweithiwr - - - - 81

Ein Hysgolion Sul - - - - - - 188
Emynau—y Llyfr Newydd - 38, 66, 90
Esgusodion - - - 105, 149, 206, 232
Etholiad Sir Frycheiniog - - - - 114

Gobaith - - - - - - - - - - 272
Gofyniadau i'r Uniawngred - - - 34
Gohebiaethau 46, 70, 166, 190, 238, 261, 283
Gwanwyn - - - - - - - - - - 25
Gwraig Ddarbodus - - - - - - 53

Halen, Gweithiau, Cheshire - - 73, 181
Handel - - - - - - - - 203, 220
Holiedydd - - 22, 46, 69, 118, 189, 238
Hunter, William, ei Ferthyrdod - 217
Hunter. Y Parch. Stephenson - 225, 241
Hunan-hanes Gweithiwr Ffrengig - 276

Iawnffyddiaeth yn Ymnewid - - - 49
Iawn-hyfforddi Plant - - - - - 58

Llythyr Dafis Castellhywel - - - - 91
Llenyddiaeth yr Undodiaid yn Nghymru 121, 174

Mab Morgan Jones a'r Basged Hoelion - 21
Manion 45, 69, 93, 119, 165, 189, 237, 261
Marwgofion 23, 47, 70, 94, 117, 142, 190, 216, 239, 262, 283
Meddyliau Gwraig Ddall - - - - 187

Offeiriad ac Undodiaeth - - - - - 20

Paham yr ydym yn Undodiaid - - 17
Plant - - - - - - - - - - 58
Priodasau - - - - - - - - 24, 47
Pregeth Proff. Morgan, o Goleg Caerfyrddin - - - - - - - - - 241
Proff. Evans - - - - - - - 131, 190
Pwlpud Undodaidd (Brasluniau) - 159
Pwysigrwydd y Gwirionedd - - - 268

Rhufain - - - - - - - - - 116

Swn, Gwres, Lliw - - - - - - - 161
Synwyr Cyffredin - - - - - - - 43

Thomas Stephens - - - - - 13, 41
Thomas Telford - - - - - - - 112
Trallod Teulu Bethania - - - - 169
Tyndall - - - - - - - - - 6, 46
Tysteb Proff. Evans - - - 22, 70, 131

Uniawngred, Gofyniadau i'r - - - 84
Uffern - - - - - - - - - 213, 274
Undodiaeth a Thrindodiaeth (Deg gwahaniaeth rhyngddynt) - - 251, 280

Y Bachgen Llawen o Eskdale - - 112
Y ffordd i ddigaloni eich gweinidog - 224
Yr Yrfa Grist'nogol - - - - - 99, 155
Yr Ysgol Sabbothol (Anerchiad) - - 79
Ysgolion Sul (Ein) - - - - - - 188

Nis gall poenedigaeth yr annuwiol fod yn annherfynol, os ystyriwn yn nesaf *natur* neu *ansawdd* eu *cyrff*. Ni fyddant yn abl neu yn gyfaddas i ddyoddef eu poeni yn uffern dân, a hyny am dragwyddoldeb. Nid oes cyrff ysprydol, anllygredig, ac anfarwol yn cael eu tynghedu nac yn cael eu haddaw i'r annuwiolion yn y Beibl. Nid oes neb i gael corff ysprydol, anfarwol, ac anllygredig, ond y cyfiawn. Gwel 1 Cor. xv. 40, 55; Gal. vi. 8, 9. "Na thwyller chwi, nid watworir Duw, canys pa beth bynag a hauo dyn, hyny hefyd a fed efe, oblegyd yr hwn sydd yn hau i'w gnawd ei hun, o'r cnawd a *fed lygredigaeth*; eithr yr hwn sydd yn hau i'r yspryd, o'r yspryd a fed *fywyd tragywyddol*." "Yr hwn sydd o'r ddaear yn ddaearol," ac felly yn farwol ac yn llygredig, Nis gall peth marwol fod yn anfarwol, na pheth llygredig fod yn anllygredig. Ac nis gellir dinystrio yr hyn sydd yn annystrywiedig; ac nid oes neb ond y saint i fod o afael dinystr a llygredigaeth. "Ni ddwg neb hwynt allan o law fy Nhad." Fe wel y darllenydd erbyn hyn fod yr hyn sydd wedi ei ddweyd yn barod yn esponiad naturiol ar eiriau ein Harglwydd yn Mat. xxv. 46, —"A'r rhai hyn a ânt i gospedigaeth dragywyddol; ond y rhai cyfiawn i fywyd tragywyddol." Y mae dau (neu dri o sylwadau yn angenrheidiol ar yr adnod yma, sef,—1. Yr *adeg* y cyfeiria ein Harglwydd yn nghyssylltiadau y geiriau, "Pan ddel yn ei ogoniant, a'r holl angylion santaidd gydag ef, yna yr eistedd ar orseddfainc ei ogoniant, a chyd-gesglir ger ei fron ef yr holl genedloedd, . . . , ac a esyd y defaid (neu y duwiol) ar ei ddeheulaw, ond y geifr (yr annuwiol) ar yr aswy. A'r rhai hyn (sef y geifr neu yr annuwiol) a ânt i gospedigaeth dragywyddol." Gwelwn mai nid awr angau yw yr *adeg yma*, ond dydd y farn, dydd yr adgyfodiad, i farnu y byw a'r meirw, "yn ei ymddangosiad ef a'i deyrnas," (2 Tim. iv. 1). Mae *adgyfodiad y meirw*, ac *ail ymddangosiad* yr Arglwydd Iesu Grist yn hanfodol i *farn* a *chospedigaeth dragywyddol*.

2. Mai *cospedigaeth* ac nid *poenedigaeth* sydd yma. Mae yr olaf yn cynnwys y blaenaf, ond nid yw y blaenaf yn golygu yr olaf. Mae *dinystr tragywyddol* yn gospedigaeth tragywyddol, ond nid ydyw yn *boenedigaeth tragywyddol*. Mae y llofruddion yn ngolwg cyfreithiau ein gwlad ni, wedi eu *cospi* yn *dragywyddol*; ond nid ydynt wedi eu *poeni*, neu *yn cael eu poeni yn dragywyddol*.

3. Y gair *tragywyddol*. Y mae iddo wahanol ystyron. Golyga weithiau amser terfynedig neu bennodedig, ac weithiau amser diderfynedig. Penderfynir y meddwl yn aml iawn wrth y cyssylltiadau. Mae y gair *byth* yn gyfystyr iddo yn aml iawn. (Gwel Exod. xxi. 6; xl. 15.) Y gair gwreiddiol am gospedigaeth dragywyddol yn Mat. xxv. 46 yw *kolasin aionion*. Meddwl *kolasin* yw tori ymaith, atal, cyfyngu, ceryddu, cospi, &c. Ni ddylai *aionion* byth gael ei gyfieithu yn "dragywydd" a "byth bythoedd." Meddwl *aion* yw "oes;" ar ol *aionios* "oes yr oesau." "Cospedigaeth yr oes," sef yr oes a ddaw. Mae y gair "tân tragywyddol" neu "anniffoddadwy" yn dygwydd yn aml yn y Beibl, sef y tân hyny nas gellir ei ddiffoddi nes y bydd iddo ddifa neu ddinystrio pob peth a ddaw neu a deflir iddo. Mae pob tân yn anniffoddadwy cyhyd ag y parheir i daflu pethau llosgadwy neu ddifadwy iddo. Felly yr oedd tân Gehenna, dyffryn Hinnom, yn agos i Jerusalem, yn cael ei gynnal nos a dydd i losgi gweddillion a ffieidd-dra y ddinas, ac yno y taflai ac yr aberthai yr Iuddewon eu plant i Moloch. Gwel Jer. xvii. 27; xix. 6; 2 Bren. xix. 35; xxiii. 10; 2 Cron. xxviii. 3, 4. At hyn y cyfeiria ein Harglwydd yn yr Efengylau—"Ile nad yw eu pryf yn marw, a'u tân ni ddiffydd." Gwel Esay lxvi. 24. Fe ddywed y Beibl fod y lle hwn etto i fod yn ddrych o'r trueni a'r gosp ag sydd yn aros rhyw ddosparth o ddynion. Gwel Joel iii. 1, 2; Zech. xii. 2; Esay xxv. 7; Zech. xiv. 1—10. Dywed rhai mai *cysgod* o uffern yw Gehenna. Os mai cysgod yw, nid yw yn gysgod o'r boenedigaeth y dywedir cymmaint am dani gan wyr y pwlpudau. Os

oedd Gehenna neu ddyffryn Hinnom yn gysgod o gwbl, yr oedd yn gysgod o'r farn ddyfodol, y llygredigaeth a'r dystryw tragywyddol sydd yn aros yr annuwiol.

4. Yn olaf, sylwn nas gall ecspedigaeth yr annnwiol fod yn *annherfynol* os ystyriwn hefyd y lle neu leoldeb *(locality)* y gosp. Mai y ddaear, nid y nefoedd goruwch y ser, fydd lleoldeb y gosp. Y ddaear sydd i fod yn breswylfa neu drigfan y saint. Ni fydd poen na dolur, marwolaeth na "melldith" ynddi. "Marwolaeth ac uffern a fwriwyd i'r llyn o dân a brwmstan. Hwn yw yr ail farwolaeth," (Dat. xx. 14). "*A phob melldith ni bydd mwyach*," (Dat. xxii. 3.) Effaith neu wobr pechod yw "melldith," ac os poenedigaeth annherfynol yw y "melldith" yma, felly ni bydd "*poenedigaeth* annherfynol mwyach!" Trugaredd a chariad yn Nuw yw rhoddi terfyn ar bob melldith, pechod, a thrueni. Gofyn y cwestiwn i ti dy hun, ac i'r Beibl, ddarllenydd, A yw yn rhesymol i ni i gredu fod Cain druan, y Cyn-ddiluwiaid, y Sodomiaid a'r Gomoriaid, a'r miloedd Iuddewon a ddiuystriwyd yn yr anialwch,—fod y miloedd yma yn uffern yn cael eu poeni nos a dydd, rhai er ys mwy nâ phum' mil o flynyddoedd, ac y bydd i Farnwr mawr, doeth, a da y byd eu cymeryd neu eu dwyn hwy o'r lle ofnadwy hwnw, ar ol bod yno cyhyd o amser, yn nydd mawr yr adgyfodiad a dydd barn, i'w barnu neu eu profi? I'w barnu, i ba beth? A yw dyn i gael ei farnu gan ei Farnwr ragor nag unwaith? A oes gwobr yn awr angau, a gwobr arall yn nydd yr adgyfodiad? A yw y Bod Mawr yn cospi ac yn gwobrwyo wrth dâl rhanol? Na, medd y Beibl. Nid un yn awr ac un arall etto, yw trefn Duw. Gwel Heb. xi. 13, 39, 40,—"Mewn ffydd y bu farw y rhai hyn oll, heb *dderbyn yr addewidion*, eithr o bell eu gweled hwynt. A'r rhai hyn oll wedi cael tystiolaeth trwy ffydd, ni dderbyniasant yr addewidion, gan fod Duw yn rhagweled pethau gwell am danom ni, fel *na pherffeithid hwynt* hebom ninau. Fel ein cydogonedder hefyd." "A'r cenedloedd a ddigiasant, a daeth dy ddig di, a'r *amser i farnu y meirw*, ac i *roi gwobr* i'th wasanaethwyr y proffwydi, ac i'r saint, ac i *ddifetha y rhai sydd yn difetha'r* ddaear," (Dat. xi. 15—18).

Wrth ddiweddu, dymunaf ofyn i ti, ddarllenydd, a oes rhywbeth wedi ei ddywedyd genyf yn yr ohebiaeth hon ag sydd yn "anysgrythyrol" neu yn "gyfeiliornus?" Am ei "thueddrwydd," gadawaf hyny i'r hwn sydd yn gwybod pob peth, a'r hwn hefyd sydd abl i amddiffyn pob gwirionedd a fyddo yn gysson â'i Air Santaidd Ef. Yr wyf yn llefaru megys wrth rai synwyrol, bernwch beth yr wyf yn ei ddywedyd. Ymwrolwch i wneuthur eich dyledswydd, ac i bleidio yr hyn yr ydych yn gredu sydd wirionedd, a gadael y canlyniad i Dduw.

B. Bennett.

HUNAN-HANES GWEITHIWR FFRENGIG.

"Ryw ddiwrnod aethum gyda fy nghyfaill Maurice i dŷ un o brif *gontractors* Paris, yn nghylch rhyw hyspysrwydd a ofynid gan y prif feiswn, yr hyn a osodais ar bapyr yn ol ei gyfarwyddyd.

"Nid oedd y *contractor* yn ei swyddfa; felly, gorfu arnom gael ein harwain drwy amryw ystafelloedd ato i'r ardd. Yr oedd carpedau ardderchog, a chelfi goreuredig dros yr holl fynedfa. Nid oeddwn wedi gweled dim i'w gymharu iddynt erioed. Yr oeddwn yn agor fy llyg-

aid, ac yn cerdded ar flaenau fy nhraed, rhag ofn anafu y blodau ar y carped, a Maurice yn fy ngwylio trwy gil ei lygad.

"Wel, pa fodd yr ydych yn hoffi y tŷ?" gofynai yn weniaethus, "a ydyw yn ymddangos yn ddigon cyssurus a sylweddol wrth eich bodd?

Atebais ei fod yn ymddangos fel palas tywysog.

"Tywysog yr hawg a'r llwyarn, ynte," ebe fy nghydymaith, "ac onid ydych yn gweled pa mor anrhydeddas yw iddo ef? Y mae ganddo dri ereill o dai cyffelyb yn Paris, heblaw palasdy yn y wlad."

Nid atebais am ychydig. Cyffrodd y fath olwg o gyfoeth rywbeth drwg o'm mewn. Ar ol edrych ar gymmaint o sidanau a melfed, edrychais arnaf fy hun, nis gwn pa fodd, ac yr oedd arnaf gywilydd fy mod wedi fy arwisgo mor wael. Ac yn gymmysgedig â fy nghywilydd yr oedd anfoddlonrwydd—yr oeddwn yn barod i gashau meistr yr holl gyfoeth hwnw am wneyd i mi deimlo fy nhlodi fy hun. Yn y cyfamser, heb ddrwgdybio, elai Maurice yn mlaen i nodi gwahanol ragoriaethau y lle. Yr oeddwn yn gwrandaw yn hollol ddiamynedd, yr oedd fy nghalon yn curo, a'm gwaed yn rhuthro i'm gwyneb. Nid oeddwn yn gallu edrych digon, ond pa fwyaf yr edrychwn, mwyaf eiddigeddus y teimlwn.

Yr oeddym yn sefyll mewn ystafell yn rhanau pellaf y tŷ, tra yr elai y gwas i ymofyn ei feistr. Yn fuan dangosodd Maurice ddarlun bychan anolygus mewn *frame* ddu yn hongian yn mysg darluniau arddorchog wedi eu *framo* yn rhagorol. Yr oedd yn arddangos gweithiwr yn ei ddillad gwaith, yn dal pibell mewn un llaw, a chwmpawd yn y llall. Rhyw ddarlun hanner coron bychan ydoedd, cyffelyb i'r rhai a ganfyddir yn grogedig wrth ddrysau masnachdai.

"Dyma'r dyn ei hunan," ebai fy nghyfaill.

"Y mae wedi bod yn weithiwr ynte," ebe finau.

"Yn gyffelyb i chwi a minau," oedd yr atebiad, "a chwi a welwch nad oes arno gywilydd i gyfaddef hyny."

Edrychais ar y darlun bychan, ac yna ar y celfi drudfawr, fel pe buasai fy meddwl yn ceisio cael allan y fynedfa o un i'r llall.

"Ah, y mae hyna yn dyrysu eich ffraethineb," ebai Maurice, gan chwerthin. "Yr ydych yn edrych am yr ysgol a'i cynnorthwyodd oddiar yr ysgaffald i'r holl ogoniant hwn. Ond nid pawb sydd yn gwybod y ffordd i'w harfer, fel y gwelwch. Ac wrth geisio ei chyrhaedd, y mae llawer un wedi colli ei afael, o eisiau crafangau da a medrusrwydd digonol."

Sylwais inau fod eisiau cyfleusdra; fod polpeth yn lwc neu anlwc yn y byd hwn, ac nad oedd genym ni un llaw mewn llwyddiant. "Er enghraifft, Maurice," ychwanegwn mewn chwerwedd, "Paham na byddai genych chwi dŷ gorwych fel yr hwn sydd yn byw yma? A ydych chwi yn llai teilwng? Os ydyw wedi llwyddo yn well na chwi, onid damwain yw hyny?"

Edrychodd Maurice arnaf gyda thro yn ei lygad, a dywedodd, "Yr ydych yn siarad droswyf fi, ond yr ydych yn meddwl am danoch eich hun."

"Yr un peth ydyw," ebe finau, yn gofidio ychydig am ei fod wedi

fy neall. "Nid wyf fi yn weithiwr drwg—yr wyf bob amser yn debyg i rywun arall, a phe byddai gwneyd dyledswydd yn codi dyn yn gyfoethog, cawn inau deithio yn fy ngherbyd."

"Byddai hono yn ffordd o deithio i'ch cyfateb yn dda iawn," ebai fy nghyfaill yn gellweirus.

"A phaham na fyddai? Byddai yn well gan bawb achub eu coesau nâ'r ceffylau. Ond nid oes eisiau ofni y dygwydd hyny i mi! Y mae yn awr megys cynt gyda'r mawrion—pobpeth i'r bachgen hynaf—dim i'r rhai ieuangaf, a'r rhai ieuangaf ydym ni."

"Mae hyna yn wir ddigon," sibrydai fy nghyfaill, yr hwn yn sydyn a syrthiai i synfyfrio.

"Ac nid ydym i ddweyd dim," ebe finau, "gan ei bod wedi ei threfnu felly! y mae hyny yn gyfiawnder, ac nid yw i gael ei gyfnewid! Dim ond edrychwch yma—y mae gweled y gwahanol fanteision y mae gwahanol ddynion yn gael yn gwneyd i fy ngwaed ferwi. Pa fodd y mae y dyn hwn yn cael byw yn ei balas, tra mae ereill yn gorfod byw mewn tai cyffelyb i dyllau colomenod? Paham y mae yr holl garpedau a'r sidanau hyn yn perthyn iddo ef yn fwy nag i ninau?". . . .

"O herwydd i mi eu hennill," ebe rhywun yn sydyn.

Swrthneidiais gan fraw. Yr oedd y *contractor* y tu ol i ni yn ei *embroidered slippers* a'i *dressing-gown*. Dyn bychan oedd, cadarn o gorff, a llais awdurdodol, a'i wallt yn dechreu britho.

"Felly, ymddengys eich bod yn ymresymwr, ynte?" ebe fe, gan edrych yn gyflawn yn fy ngwyneb. "Yr ydych yn eiddigeddus o honwyf, ac y mae arnoch eisiau gwybod paham y mae fy nhŷ yn perthyn i mi yn fwy nag i chwi. O'r goreu, cewch wybod. Dewch gyda mi."

Ac aeth yn mlaen tuag at ddrws tumewnol. Petrusais inau. Tro'dd yntau yn ol. "A oes ofn arnoch?" gofynai, mewn llais a barodd i'm lliw gyfodi.

"Dangosed y dinesydd i mi y ffordd," ebe finau, braidd yn swrth. Arweiniodd ni i ystafell, yn nghanol yr hon yr oedd bwrdd hir wedi ei orchuddio â chwpanau pacnt a gwrychellau *(brushes)*, *rules* a chwmpawdiau. Ar y mur yr oedd yn grogedig gynlluniau lliwiedig yn arddangos gwahanol ddosranau adeilad. Yma ac acw ar estyll yr oedd cynddelwau bychain o risiau troellog o goed, cwmpawdiau morwrol, celfi mesuronol, a llawer o bethau na wyddwn i eu dybenion. Yn mhen pellaf yr ystafell yr oedd *stand* orfawr yn llawn o bapyrau; ac wedi eu cruglwytho ar *desk* yr oedd cyfrifon ac *estimates*. Arosodd y *contractor* o flaen y bwrdd gan ddangos cynllun lliwiedig. "Dyma gynllun ag y mae arnaf eisiau ei gyfnewid; mae yr adeilad i fod dair llath yn llai, ond heb leihau nifer yr ystafelloedd; ac y mae yn rhaid penderfynu y lle i'r grisiau. Eisteddwch i lawr a gwnewch i mi gynllun o hono."

Edrychais arno gyda syndod, a deisyfais arno i ystyried nad oeddwn i yn deall *drawing*.

"Yna edrychwch dros archeb y mesurydd yma," ebe fe, gan gymmeryd swrn o bapyrau oddiar ei *desk*. "Y mae tri chant dwsin o wahanol bethau i'w profi."

Atebais nad oeddwn yn alluog i gyflawnu pethau o'r fath, nad allaswn brofi y pris na gwireddu y mesuriad.

"Gallwch o leiaf ddweyd wrthyf, beth yw y ffurf-ddeddfau y rhaid i mi fyned trwyddynt o berthynas i'r tri thŷ wyf yn awr yn myned i'w hadeiladu. Yr ydych yn gwybod y gyfraith yn nghylch cuddio golau y cymmydogion."

Rhwystrais ef yn fyrbwyll, trwy ddweyd nad oeddwn yn gyfreithiwr.

"A chan nad ydych yn ariannydd ychwaith," ebai yntau, "nid oes amheuaeth nad ydych yn anwybodus o'r telerau i benderfynu graddfa y taliadau; pa un yw yr amser mwyaf cyfleus i werthu; pa lòg a ddylwn i gael ar fy arian er fy rhwystro i fyned yn fethdalwr. A chan nad ydych yn farsiandïwr, dichon y byddai yn ormod gorchwyl i chwi enwi i mi y gymmydogaeth oreu i gael defnyddiau; ac i nodi yr amser goreu i brynu; a'r ffordd rataf i symmud y defnyddiau hyny i'r lleoedd gofynol. Yn fyr, gan nad ydych yn gwybod dim yn fwy na chan mil o weithwyr ereill, nid ydych yn dda i ddim ond i wneyd yr un peth â hwythau, sef defnyddio y morthwyl a'r llwyarn!"

Yr oeddwn wedi fy llwyr ddymchwelyd, ac yn troi fy *hat* yn barhaus heb roddi un atebiad.

"A ydych yn deall yn awr paham yr wyf fi yn byw mewn tŷ mawrwych, tra yr ydych chwithau yn byw mewn nenawr (*garret*)?" Dechreuodd eilwaith. "O herwydd fy mod i wedi arfer gofal a dyfalwch; wedi dysgu y pethau a esgeulusasoch chwi, a thrwy fyfyrdod caled ac ewyllys benderfynol yr wyf wedi gweithio fy hun i fyny yn faeslywydd, tra yr ydych chwithau yn aros yn y rhengau afrosgo. Drwy ba awdurdod ynte yr ydych chwi yn gofyn am yr un manteision a'ch uwchafiaid? Ai ni ddylai cymdeithas wobrwyo pob un yn ol y gwasanaeth a gyflawna? Os ydych yn dymuno i gymdeithas ymddwyn atoch fel yr ymddygodd ataf fi, gwnewch yr hyn a wnaethum inau; cynnilwch eich cannillion i brynu llyfrau; treuliwch eich dyddiau i weithio, a'ch nawniau i ddysgu; chwiliwch yn mhob man am wybodaeth, fel y marsiandïwr am ei fuddiant. A phan ddangosoch na wna dim eich digaloni, pan ddealloch ddynion a materion fel y dylech, dangoswch hyny i'r byd, ac ni fydd rhaid i chwi fyw mewn dacargell mwy."

Yr oedd y *contractor* wedi dirwyn ei hun i hwyl, a therfynodd mewn tipyn o nwyd. Ond nid oeddwn i yn dweyd cymmaint â gair mewn atebiad. Yr oedd ei athrylith wedi dwyn ymaith fy holl resymau. Ceisiodd Maurice, yr hwn a'm canfyddai mewn penbleth, ddwyn ychydig eiriau i'm cyfiawnhau, ac yna aethom at destyn cin hymweliad.

Edrychodd y *contractor* dros y papyr oeddwn wedi ysgrifenu, gofynodd ychydig o eglurhad, ac ymadawsom; ond gyda fod mod i yn myned trwy y drws, galwodd fi yn ol.

"Cofiwch am yr hyn wyf wedi bod yn ddweyd wrthych, fy nghyfaill," ebai efe, gyda golwg sorchus, "ac yn lle bod yn ciddigeddus, ceisiwch feddianu ychydig uchelgais onest. Peidiwch treulio eich amser i achwyn ar y rhai sydd uwchlaw i chwi, ond gweithiwch i ddirwyn y rhaff i godi eich hun i fyny hefyd; ac os gallaf fi eich cynnorthwyo, nid oes eisiau i chwi ond siarad, a roddaf i chwi yr ysgaing gyntaf o lin yn fenthyg.

C.F.

DEG O WAHANIAETHAU RHWNG UNDODIAETH AC "IAWNFFYDDIAETH."

(Parhad o'r Rhifyn diweddaf, tud. 254.)

V. Wrth *adgenedliad*, neu *adenedigaeth*, yn ol y dduwinyddiaeth boblogaidd, y meddylir dylanwad goruwch-naturiol yr Ysprydd Glân ar y galon, trwy yr hwn y mae y pechadur yn cael ei waredu yn uniongyrchol o blith y rhai ydynt yn agored i drueni tragwyddol, ac yn cael ei gofrestru yn mhlith y rhai ag y mae gwynfyd tragwyddol yn cael ei addaw iddynt trwy haeddedigaethau Crist.

Adenedigaeth, yn ol fy meddwl i, yw cyfnewidiad oddiwrth yspryd anghrefyddol at yspryd crefyddol ymarferol, gan nad beth fyddo'r moddion i ddwyn hyny i ben, a pha un a fyddo y cyfnewidiad yn gyflym neu yn raddol. Ac mae'n achub dyn, gan ei fod yn ei wneyd yn well, ac yn ddedwyddach. Yn ei natur mae yn rhesymol ac yn ymarferol, ac mae'n deilliaw oddiwrth gydweithrediad yspryd dyn ag Yspryd Duw nad yw byth yn gadael yr un cnaid dynol. Gosod Cristionogaeth ar orsedd y galon fel rheol bywyd yw ailenedigaeth.

VI. Mae iawnffyddiaeth yn cyfyngu *sefyllfa prawf* i'r bywyd hwn, ac yn gwneyd cyflwr yr enaid mewn sefyllfa ddyfodol yn un o lawenydd sefydlog, perffaith, a thragwyddol ar un llaw, ac yn un o wae annhraethadwy am dragwyddoldeb ar y llaw arall. Mae tymhor bywyd ar y ddaear, mor fyr a chyfyngedig, mor llawn o anwybodaeth ac anmherffeithrwydd, yn gwneyd i fyny ein sefyllfa prawf ni, ac nis gellir ei alw yn ol; ac mae miliynau ar filiynau yn barhaus yn esgeuluso eu braint, ac yn syrthio i sefyllfa o drueni a fydd yn parhau cyhyd â Duw ei hunan.

Er fod gosod allan y fath athrawiaeth yn unig yn ddigon i'w gwrthbrofi, etto nid wyf yn amheu nad yw pob cyfnod mewn bywyd yn sefyllfa o brawf, ond yr wyf yn ystyried mai yr olwg oreu a mwyaf teilwng ar fywyd, yw edrych arno fel tymhor *dysgyblaeth ac addysg*. Mae pob rhan o fywyd yn sefyllfa o brawf, ac yn barotoad i'r rhai sydd yn canlyn; ac yr wyf yn credu mai fel hyny y bydd hi yn y dyfodol, yn ddim llai nag yma. Nid yw marwolaeth ond amgylchiad, amgylchiad boreu yn modolaeth dyn, ac mae Duw, yr hwn sydd gariad, yr hwn sydd yn gweled y diwedd o'r dechreu, yr hwn sydd yn llanw pob amser, pob byd, tragwyddoldeb ei hunan, rhagluniaeth yr hwn sydd yn cynnwys pawb, trugaredd yr hwn nid yw yn pallu, yn arwain yn mlaen, yn *addysgu*, yn llywodraethu, yn goruwchlywodraethu er mwyn ei amcanion doeth a daionus ei hun am byth; ac ni adawa un creadur mae e' wedi greu i fod yn golledig am byth.

VII. Ystyrir y *Beibl* gan y dduwinyddiaeth boblogaidd fel oracl anffaeledig y gwirionedd, fel llyfr ag mae ei holl addysgiadau o ddechreu Genesis i ddiwedd y Datguddiad yn hollol gywir a pherffaith, ac fel llyfr ag mae'n ddyledswydd ar bob dyn i gredu pob peth sydd ynddo yn ddibetrus. Mae'n arferiad gyffredin i'w alw yn "Air Duw."

Mae y Beibl i mi yn lyfr sydd wedi ei wneyd i fyny o lawer o lyfrau, yn gwahaniaethu llawer, wedi eu hysgrifenu o dan amrywiaethau lawer o amgylchiadau ac o addysg, gyda olion amlwg barnau dynol ar lawer o bynciau, a hyny mewn cyssylltiad â'r gwirioneddau ysprydol mwyaf ardderchog a goruchel, gymmaint o flaen eu hoes fel ag i ddangos ysprydoliaeth ddwyfol. Mae hanesiaeth, bywgraffyddiaeth, a barddoniaeth wedi eu gwasgar trwy ei dudalenau, ac yn cyfranu gwersi moesol o werth annghymharol. Nid yw yn hawlio anffaeledigrwydd, ac mae pob rheswm a phob ymchwiliad yn ein cymhell i gredu nad yw pob peth sydd ynddo yn ysprydoledig gan Dduw. Gyda theilyngdod amrywiol yn ei wahanol ranau, gellir dweyd ei fod yn cynnwys "human-fywgraffiad y natur ddynol o'i mabandod i'w pherffeithiad;" ac mae ei ardderchawgrwydd mwyaf yn gymmwysedig yn yr hanes am y dyn dwyfol, Iesu o Nazareth, bywyd goruchel yr hwn sydd i fod am byth yn foddion meithriniad a chynnydd dynoliaeth. Felly y dymunwn i ei ddarllen yn ddoeth, yn barchus, yn ddiolchgar, ac nid ei adael i sclio i fyny y meddwl yn erbyn gwirionedd crefyddol sydd yn barhaus yn cael ei ddadguddio.

VIII. Ac mae hyn yn fy arwain i sylwi fod *rheswm* yn y dduwinyddiaeth boblogaidd yn cael ei barchu a'i ddirmygu bob yn ail. Yn erbyn Pabyddiaeth, ei hathrawiaethau, a'i defodau, mae y Brotestaniaeth boblogaidd yn defnyddio rheswm gyda

phob parodrwydd ac egni, gan wrthod yr hawl a honir gan Eglwys anffaeledig. Ond mewn perthynas i feirniadaeth rydd, ymofynol, athroniaeth, a gwyddor, mae'r un Brotestaniaeth yn cyhoeddi rhybuddion ac anathemau yn erbyn rheswm dall, cyfeiliornus, a balch, ac yn taflu ei hun yn ol am wirionedd sylweddol i'r Beibl sydd yn anffaeledig, er ei fod yn cael ei esponio gan ddynion ffaeledig.

Yr wyf fi yn credu fod rheswm dyn yn deilwng o ymddiried, ac yr wyf yn credu hefyd yn y cynnorthwyon a geir i reswm yn y Beibl, yn yr eglwys, mewn hanes, mewn beirniadaeth a gwyddor. Gan nad pa faint ddywedo dynion am dlodi a gwendid rheswm, beth bynag sydd yn afresymol ar ei wyneb yr ydym yn rhwymedig o'i wrthod, lle bynag y cyfarfyddwn ni ag ef. I mi Iesu Grist yw yr awdurdod mawr ysprydol, oblegyd ar ol gwneyd ymchwiliad gofalus i'w grefydd, yr wyf yn ei chael yn cytuno â'r rheswm uwchaf ydym yn gwybod am dano.

IX. Mae "Iawnffyddiaeth" yn pregethu *adgyfodiad y corff materol*, athroniaeth ag ydwyf fi yn wrthod, nid yn unig am ei bod yn anysgrythyrol ac yn afresymol, ond fel yn hollol annghredadwy ac yn arwain i ddyryswch. Mae yn edrych am ddyfodiad gweledig Crist yn y dyfodol ar gymmylau'r nef i gadw brawdlys y bydysawd, y barnwr yn dedfrydu myrddiynau y meirw fel maent yn codi i fyny i wynfyd tragwyddol, neu yn eu cau i fyny mewn carchar tragwyddol. Yr wyf yn credu yn ei ddyfodiad ffigyrol yn y ganrif gyntaf Gristionogol, pan y cafodd Jerusalem ei dinystrio, a phan ddaeth y grefydd newydd, ar ol ei rhyddhau oddiwrth atalfeydd Iuddewig, i fod yn gyffredinol. Yr wyf yn credu yn ei ddyfodiad ysprydol drachefn a thrachefn yn ngoruchafiaeth ei wirionedd, yn ei lywodraeth foesol yn nghydwybod y byd trwy yr oesau Nid gyda phomp rhodresgar, na sain udgyrn, na rhwygiad beddau, na deffroad y meirw mae efe yn dyfod i farn, ond yn nyogelwch yr enaid dynol, yn ngallu a gogoniant mawr ei wirionedd a'i gariad, yn santeiddio ac yn dyrchafu.

X. *Ffydd*, yn ol y golygiad cyffredin, yw credu yn y Drindod, llygredd y natur ddynol, digonolrwydd yr aberth iawnol, cosp dragwyddol, ac ysprydoliaeth anffaeledig yr holl Feibl; ac mae iachawdwriaeth (gwaredigaeth oddiwrth bechod, ac yn neilldnol oddiwrth boenau tragwyddol) yn canlyn o'r gred yma. Pwy bynag nad yw yn credu felly yn Nghrist "yn ddiamheu y collir ef yn dragywydd."

Yr wyf fi yn credu nad ffydd yn yr Iesu yw ymlyniad wrth unrhyw res o athrawiaethau, ond yn hytrach cydymdeimlad ag ef yn holl yspryd ei geiriau a'i weithredoedd. Mae'r hwn sydd ganddo y ffydd hon wedi ei achub —wedi ei waredu oddiwrth y trueni mwyaf yn feddyliol ac ysprydol yma, ac ar ol myned oddiyma; mae yr hwn nid yw yn credu wedi ei *ddamnio*, neu yn fwy cywir wedi ei *gondemnio*, *ei farnu*, ei adael i ymbalfalu mewn tywyllwch a thrueni yn nghanol chwerwder ac anobaith pechod. Daeth Crist i ddwyn goleuni a bywyd. *Credwch*, hyny yw, *ymddiriedwch*, a chewch eich hachub. Nis gall athrawiaethau achub. Yspryd ei fywyd yn unig all.

Mae'n debyg y bydd rhai yn dweyd wrth ddarllen y tudalenau yma, "Allwn ni ddim credu fod yr athrawiaethau ydych chwi wedi osod i lawr yn cael eu derbyn gan sectau mawrion cred. Yn sicr ydym ni ddim wedi eu clywed yn aml, os byth yn cael eu dwyn yn mlaen, ac yn cael eu hargraffu yn ddwys ar feddyliau y bobl o'r pulpudau poblogaidd. Mae yr hen ddaliadau yn cael eu *smoothio*, barnan dynion yn dyfod yn fwy rhyddfrydig, ac ar ol y cwbl llai o wahaniaeth nag a feddyliwch chwi rhwng eu golygiadau hwy a'r eiddoch chwi." I hyn yr wyf yn ateb, Mae yr holl erthyglau yma i'w cael yn nghyffesiadau ffydd yr Eglwysi Esgobol, Presbyteraidd, Cynnulleidfaol, Bedyddiol, a Methodistaidd. Pa faint bynag fyddo'r daliadau yma yn cael eu *smoothio* a'u cadw o'r golwg gan allu cynnyddol rhyddfrydiaeth yr oes, mae y daliadau eu hunain i gyd yn gynnwysedig yn y credoau a broffesir. A dim ond i bregethwr yn un o'r enwadau yma feiddio amheu yn gyhoeddus wirionedd y Drindod, Duwdod Crist, yr Iawn, anffacledigrwydd y Beibl, neu uffern dragwyddol, mae ei ddiswyddiad gan lys eglwysig yn sicr o ganlyn bron yn ddieithriad.

Ddarllenydd, pa gyfres o'r gosodiadau gwrthwynebol sydd yn ymddangos yn fwyaf syml a rhesymol? Pa un sydd ganddi y ffydd fwyaf yn nghariad tadol Duw, ac yn rhoddi yr olwg fwyaf gobeithiol a siriol am y bywyd dynol? Pa un sydd fwyaf cydweddol â'r hyn y mae gwyddor yn mhob cangen yn dadguddio o amser i amser? Pa un sydd yn gwahardd ac yn cefnogi ymofyniad rhydd a diofn? Pa un sydd yn

cangu y meddwl, yn helaethu cydymdeimladau fwyaf? Nid wyf yn gofyn pa un sydd â mwyaf o ddychrynfeydd yn perthyn iddi, yn cynnyg y mesur mwyaf o lawenydd, ond pa un sydd yn cymmeryd mwyaf o le yn y gwaith araf, tawel, graddol, ond mawreddog o *addysgu* dyn yn yr ystyr eangaf a mwyaf ardderchog o'r gair? Mae amser yn parotoi atebion i'r gofyniadau yma; nid wyf yn teimlo un petrusder mewn perthynas i natur ei atebion.

Gohebiaeth.

GEIRIAU DR. FRANKLIN.

Mr. Gol,—Mae Dammegion Esop yn un o fy hoff lyfrau. Mae'n cynnwys llawer o wybodaeth werthfawr, ac o gynghorion da. Wn i ddim mai hen fab gweddw oedd Esop, ond darfu i ddarlleniad o eiriau Dr. Franklin yn YR YMOFYNYDD diweddaf, tud. 260, ddwyn ar gof i mi un o'i ddammegion. Yr oedd Dr. Franklin yn ddyn call iawn, ysgrifenodd lawer ag yr wyf yn gymmeradwyo yn fawr. Ond ar y pwnc dan sylw, 'rwy'n ofni nas gallasai fod yn gwbl ddiduedd. Dywed un o ddammegion Esop fod cadnaw un tro wedi syrthio i'r trap, a bod mor affodus a cholli ei gynffon. Wel, nid oedd modd gwella'r anffawd, ond y peth goreu ar ol hyny oedd ceisio darbwyllo ereill i wneuthur yr un modd. Felly dywedai yr hen frawd wrth bob cadnaw a gwrddai nad oedd cynffonau yn ffasiynol yn awr, a bod peiriant pwrpasol i gael i dori cynffonau i ffwrdd. Cyfleed y darllenydd yr addysg ei hunan, a gwrandawed holl aelodau hen gymdeithas anrhydeddus yr hen lanciau ar gynghor hen wr profiadol i rai ar fedr priodi:—"Mr, Punch's advice to those about to marry—DON'T."

HEN LANC.

Hanesion.

CYFARFOD CHWARTEROL Y NADOLIG.

CYNNALIODD Undodiaid Deheudir Cymru eu Cyfarfodydd Chwarterol yn y Wig, ger Penybont-ar-Ogwy, ar y dydd Mercher a'r dydd Iau olaf o'r flwyddyn. Yr oedd yn bresenol y Parchedigion Titus Lloyd, D. Evans, B.A., Maesymeillion; T. Thomas, Pantydefaid; E. W. Lloyd, Cwmbach; W. Rees, Rhydygwin; J. J. George, Aberdar; J. Evans, Gellionen; J. Davies, Alltyplaca; R. C. Jones, Llanbedr; W. James, B.A., Aberdar; W. Davies, Penrhiw, ger Castellnewydd-Emlyn; a Meistri J. Gwenogfryn Evans, a J. Hathren Davies, o Athrofa Henadurol Caerfyrddin. Pregethodd y Parchedigion W. Davies a W. James, B.A., prydnawn dydd Mercher. Boreu dydd Iau, aeth y Parch. J. Davies drwy ranau defosiynol y gwasanaeth, a chanlynwyd ef gan y Parch. J. J. George, yr hwn a draddododd bregeth Saesneg, a'r Parch. T. Thomas, y pregethwr appwyntiedig. Ar ol y gwasanaeth cynnaliwyd cynnadledd. Y pwnc a drafodwyd ydoedd "Ffydd." Siaradwyd yn fyr arno gan y Parchedigion D. Evans a T. Thomas. Cynnygiodd y Parch J. Evans ar fod i'r Cwrdd Chwarterol nesaf i gael ei gynnal yn yr Onenfawr, ger Llandeilo, a bod i'r Parch. W. James draddodi y bregeth, yr hyn a basiwyd. Pwnc y gynnadledd fydd, "Pwy a all fod yn gadwedig?" a phennodwyd y Parch. E. W. Lloyd, Cwmbach, i ddarllen papyr arno—cyllun newydd a ddichon feallai wneyd y cynnadleddau yn fwy adeiladol a llwyddianus. Cynnaliwyd cyfarfodydd yn y prydnawn, pan y pregethodd y Parchedig-

ion R. C. Jones a J. Davies, ac yn yr hwyr, pan wasanaethodd y Parchedigion W. Rees a D. Evans. Yr oedd y cynnulliad yn rhagorol dda yn yr oll o'r cyfarfodydd.

CFFN-COED-Y-CYMMER, GER MERTHYR.

Dydd Sul, Ion. 2il, ail-agorwyd yr addoldy Undodaidd yn y lle hwn, ar ol cael ei gau am oddeutu tri mis er ei baentio a gwneuthur adgyweiriadau pwysig ereill, yn ystod yr hwn amser ymgyfarfyddai y gynnulleidfa yn yr Ysgoldy. Aethpwyd drwy y gwasanaeth boreuol gan y Parch. D. Evans, B.A., Maesymeillion, yr hwn a draethodd ar "Oruchafiaeth Gwirionedd ar Gyfeiliornad." Yn y prydnawn, traddododd Mr. E. Ceredig Jones, o Athrofa Henadurol Caerfyrddin, bregeth Saesneg ar "Y Bywyd Cristionogol yn Fywyd Cynnydd Moesol;" a phregethodd Mr. Evans yn Gymraeg oddiar Rhuf. xiv. 17, 18. Yn yr hwyr, cynnaliwyd gwasanaeth, pan bregethodd Mr. Evans a Mr. Jones. Testyn y cyntaf ydoedd "Edifeirwch," ac eiddo yr olaf "Beth a feddylir wrth Dduwioldeb, yn ol y Testament Newydd?" Er fod y tywydd yn anffafriol, cafwyd cynnulliadau da. Mae cyfeillion y Cefn yn haeddu mawr ganmoliaeth am eu sêl dros yr achos. Maent wedi bod yn amddifad o weinidog sefydlog er marwolaeth y diweddar Barch. J. T. Williams, a hyny er ys dros ddwy flynedd; etto, drwy gynnorthwy achlysurol gweinidogion a myfyrwyr, y maent wedi bod yn alluog i gynnal dau wasanaeth bob Sul, yn nghyd ag Ysgol Sul lewyrchus. Mae y gynnulleidfa mewn sefyllfa iachus â gweithgar, ac fel prawf bychan o hyny gellid nodi fod pedwar cyfaill wedi cael eu derbyn yn aelodau newyddion dydd Sul, Ion. 16eg.

E. Ceredig Jones.

Marwgofion.

Hyd. 31, 1875, yn flwydd a hanner oed, John, mab David a Margaret Davies, 9, Victoria Street, Llanelli, (brodorion o Sir Aberteifi). Claddwyd ef y dydd Mawrth canlynol, pryd y gwinyddwyd yn y ty gan y Parch. John Davies, Alltyplaca; yna cludwyd ei gorff i orsaf y rheilffordd, ac oddiyno i Lanybyther, lle y daeth nifer i'w gyfarfod i'w gludo i fynwent Capel-y-Groes, i gydorphwys â llawer o'i berthynasau agosaf. Gweinyddwyd yn y capel gan weinidog y lle.

"Ni ddaeth y teg flodeuyn hyn,
A gadd mor syn ei symmud,
Ond prin i ddangos pa mor hardd
Yw blodau gardd y bywyd."

Dewi Hefin.

Tach. 24, Sarah Enoch, o Heol Elim, Penydarren, Merthyr, yn 77 mlwydd oed. Y dydd Sadwrn canlynol, ymgasglodd tyrfa luosog i'w hebrwng i dy ei hir gartref, yn mynwent Hen Dy Cwrdd yr Undodiaid, Cefn-coed-cymmer, lle y gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parch. W. James, B.A., Aberdar. Yr oedd yr hen chwaer ymadawedig o dymher fwyn a hynaws iawn, ac yn un a berchid gan bawb a'i hadwaenai. Yr oedd yn enedigol o blwyf Llandyssil, Ceredigion; ond sefydlodd yn yr Ystrad yn lled ieuanc, lle y dechreuodd ei gyrfa grefyddol gyda'r Undodiaid yn Nghapel-y-Groes, a threuliodd y 30ain diweddaf o'i bywyd yn aelod hardd a selog yn Hen Dy Cwrdd Cefn-coed-cymmer, lle y gorwedd ei gweddillion yn dawel hyd y boreu pan y bydd i

Floedd uchel archangel Ior
I gyrhaedd hyd pob goror;
Ac yn y fan, ar un fynyd,
Agor dorau beddau'r byd.

Ap Dafydd.

Ionawr 11, 1876, T. D. Howells (Brynalaw), Meirion Street, Trecynon, Aberdar, yn 42 oed. Yr oedd yn clafychu er ys tro o'r darfodedigaeth, ond yn annysgwyliadwy braidd y daeth angau i'w gymmeryd ymaith oddiwrth ei waith at ei wobrwy. Yr oedd yn gerddor gwych, fel yr ystyrid ef yn un o brif gerddorion y gymmydogaeth, a rhoddai lawer o gynnorthwy i gynnal cyngherddau yma a thraw. Dydd Gwener canlynol, daeth tyrfa luosog yn nghyd i'w hebrwng "i dy ei hir gartref," yn mhlith y rhai yr oedd llawer o gerddorion y lle, ac awd i'r Hen Dy Cwrdd, lle yr oedd yn aelod rheolaidd, pryd y gweinyddwyd gan y Parchn. J.

Williams a W. James, B.A. Yna hebryngwyd ef i'w "argel wely" yn y *Cemetery*, lle yr erys hyd ganiad yr udgorn diweddaf. Gadawodd ar ei ol weddw a phump o blant bychain yn amddifad o'u tad. Gobeithio y rhoddant eu hyder yn y Duw Mawr yn eu hunigrwydd, ac y caffont ei nerth yn gysgod iddynt yn eu galar a'u cyfyngder. Y mae yn mryd prif gerddorion y gymmydogaeth i wneuthur Cyngherdd er lles ei weddw a'i phlant, a gobeithio y try allan yn berffaith lwyddiant, ac y cymmer cantorion y gymmydogaeth hyny at eu hystyriaethau, ac y byddant o unfryd yn rhoi help llaw i ddwyn yr amcan gogoneddus oddiamgylch. Diau genyf bod teilyngdod yr ymadawedig yn gofyn hyn oddiwrth y cyhoedd, ac y bydd pawb yn barod i gynnorthwyo y mudiad er lles y weddw a'r amddifaid yn eu profedigaeth chwerw.—*Eiddil Cynon.*

Barddoniaeth.

NID OES MARWOLAETH.

(LORD LYTTON.)

Nid oes marwolaeth! Fe fachluda'r ser
 I godi etto ar ryw decach byd;
A dysglaer yn nghoronau'r nefoedd der
 Tywynu wnant o hyd.

Nid oes marwolaeth! Ond y llwch sydd
 Dan draed, newidia dan gafodydd haf
Yn euraidd rawn, neu ffrwythau teg eu pryd
 Neu flodau prydferth braf.

Y creigiau cedyrn dadansoddi wnant—
 Diwallant newyn y mwsoglyn bach;
A dail y coed eu bwyd beunyddiol gant
 Allan o'r awyr iach.

Nid oes marwolaeth! Ond fe syrthia'r dail,
 Fe wywa'r blodau—heibio ant yn chwai;
Arosant oriau'r gauaf oll, nes cael
 Dyfodiad meiriol Mai.

Nid oes marwolaeth! Rhyw ffurf angel sydd
 Ar ddystaw draed yn rhodio'n dae'r byth
  mwy;
A chluda ein hanwyliaid goreu i bant,
 A meirw y galwn hwy.

Mae'n gado ein calonau'n llwm ac oer,
 Mae'n torri'n blodeu tecaf, mwyaf per;
I'r Wynfa draw trawsblana hwy, yn awr
 Addurnant ddeildai Ner.

Y pereiddlais, yr hwn â'i swynol sain
 Wnai'n llawen gynt ardaloedd cwyn a
  gwae,
Yn canu y dragwyddol gân yn awr,
 Ger pren y bywyd mae.

A phan y gwel efe rhy ddysglaer wen,
 Neu galon fo'n rhy bur i'n daear gu,
Fe'i cluda i dragwyddol wlad y gwawl
 I fyw'n y Wynfa fry.

Ac wedi eu myned i'r anfarwol fyd,
 Dychwelyd atom etto a wnant hwy;
A croesaw llawen gant—yr un hoff rai,
 Heb bechod 'nawr, heb glwy'.

Ac er yn anweledig, byth ger llaw,
 Mae'r anfarwolion anwyl is y rhod;
Can's mae'r bydysawd mawr yn fywyd oll,
 Ac nid oes meirw'n bod. U.

HEN BROFFWYDOLIAETH.

Wele rydd-gyfieithiad o broffwydoliaeth a gyhoeddwyd yn y flwyddyn 1448, ac a ailgraffwyd yn 1641. Adnabyddir hi megys *Mother Shipton's Prophecy.*

Cerbydau heb geffylau ant,
Damweiniau, llenwi'r byd a wnant,
Ehed meddyliau o gylch y byd
Ar drawiad amrant, bron o hyd;
Y byd a'i ben a droir i lawr,
Aur ceir dan goedydd fach a mawr,
Marchoga dynion fryniau ban,
Heb unrhyw geffyl yn y fan;
Hwy roliant dan y dyfroedd cryf,
Marchogant, cysgant, byddant hyf.

Fe'u gwelir yn yr awyr fry
Mewn lliwiau gwyn, a glas, a du.
Fe nofia haiarn ar y dwr
Fel llong o goed yn ddigon siwr;
Ceir aur ac arian yn ddi-ri'
Mewn gwlad sy'n ddyeithr iawn i ni,
A rhyfeddodau wna'r dwr a'r tan,
A gelyn ddaw i Brydain lan.
A diwedd byd ddaw yn y man,
Yn *eighteen hundred and eighty-one!*

Cyf. EGWESTYN.

JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, ABERDAR.

PIGION O EMYNAU.

Mae yr Ail Ran yn y Wasg, a bydd yn barod yn ddioed. Pris Ceiniog, neu Wyth Swllt y Cant.

D.S.—Bwriadwn ymosod o ddifrif ar y Llyfr Emynau yn ystod gwyliau'r haf. Mae rhwystrau annysgwyliadwy wedi codi yn ddiweddar, fel nas gallwn fyned yn mlaen â'r gwaith yn awr.

Yn awr yn barod, Pris 3s. a 6ch., wedi ei rwymo yn hardd,

AIL ARGRAFFIAD O

TELYN DEWI,

SEF GWAITH PRYDYDDAWL Y PARCH. DAVID DAVIS,

GYNT O GASTELL-HYWEL, CEREDIGION.

Fel mae yn hyspys i lawer fod y Gwaith uchod allan o Brint er's blynyddau, a diamheu y bydd ymddangosiad yr Ail Argraffiad hwn yn hyfrydwch ac yn dderbyniol gan Feirdd a Llenorion Cymru. Y mae yn cynnwys llawer o ddarnau o'i waith nad oeddynt yn yr Argraffiad cyntaf—yn nghyd â Hanes ei Fywyd, a Darlun hardd o'r Awdwr.

Erfynir ar bawb a ewyllysiant gael copi o'r Gwaith uchod anfon eu henwau yn ddioed i'r cyhoeddwr, J. DAVIS, Argraffydd, Llanbedr.

CRISTIONOGAETH UNDODAIDD,

GAN SAMUEL SHARPE.

4 tdd. Pris 10s. y fil, 1s. 3c. y cant, 2 geiniog y dwsin.

CYFFES FFYDD UNDODWR,

GAN JOHN PAGE HOPPS.

24 tdd. Pris naw ceiniog y dwsin, neu 3s, a 6c. y cant.

Dyma gyfleusdra i gyfeillion wneuthur rhywbeth tuag at daenu egwyddorion Undodaidd. Anfonir hwy yn rhad trwy'r post am y telerau uchod. Anfoner at The Editor of Yr Ymofynydd, Mount Pleasant Garden, Aberdare.

AT EIN DARLLENWYR.

Ymddengys y Taliadau ar amlen y Rhifyn nesaf.

☞ Dymunwn alw sylw ein derbynwyr at yr Amlen Felen, yr hon sydd yn awgrymu fod taliad yn ddyledus.

Y Parch. W. Humphreys.—Diolch yn fawr am y llythyrau ar y daith i Ewrop, Asia, ac Affrica. Mae un llythyr yn eisiau, sef yr un yn rhoddi hanes esgyniad y mynydd tanllyd. Dechreuant ymddangos yn y nesaf.

Telerau.—Un copi, 3c., gyda'r post 3½.; ar dri chopi a rhagor telir y cludiad.

Anfoner mewn stamps neu order at—"Rev. W. James, B.A., 36, Gadlys Street, Aberdare."

☞ *Pob Archebion a Gohebiaethau i'w hanfon yn gyfeiriedig,—*

The Editor of "Yr Ymofynydd,"
Mount Pleasant Garden,
ABERDARE.